Arweiniad i feddygon

Cyfrinachedd: arweiniad atodol

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rheoleiddio meddygon
Sicrhau arfer meddygol da

Cynnwys

	Tudalen
Adrodd pryderon am gleifion i'r DVLA neu i DVA	1
Datgelu cofnodion at ddibenion ariannol a gweinyddol	4
Adrodd anafiadau saethu a thrywanu	8
Datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol	14
Datgelu gwybodaeth at ddibenion yswiriant, cyflogaeth a dibenion tebyg	22
Datgelu gwybodaeth at ddibenion addysg a hyfforddiant	27
Ymateb i feirniadaeth yn y wasg	34

plain English approved by the word centre

Adrodd pryderon am gleifion i'r DVLA neu i DVA

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*, rydym yn cynghori:

36 Mae'n amlwg bod cael gwasanaeth meddygol cyfrinachol o fudd i'r cyhoedd. Mae'r ffaith bod pobl yn cael eu hannog i geisio cyngor a thriniaeth, gan gynnwys cyngor a thriniaeth ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, yn cynnig budd i'r gymdeithas gyfan, yn ogystal â'r unigolyn. Mae gofal meddygol cyfrinachol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith fel rhywbeth sy'n cynnig budd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallai datgelu gwybodaeth gynnig budd i'r cyhoedd hefyd: er mwyn diogelu unigolion neu gymdeithas rhag risgiau niwed difrifol, megis clefydau trosglwyddadwy difrifol neu droseddau difrifol; neu er mwyn galluogi gwaith ymchwil meddygol, addysg neu ddefnydd eilaidd arall o wybodaeth a fydd yn cynnig budd i gymdeithas gydag amser.

37 Felly, bydd modd datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, heb sicrhau caniatâd claf, ac mewn achosion arbennig pan fo cleifion wedi gwrthod rhoi eu caniatâd, os bydd y budd i unigolyn neu i gymdeithas o wneud y datgeliad, yn drech na budd y claf a'r budd i'r cyhoedd o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i chi bwyso'r niwed sy'n debygol o ddigwydd o beidio datgelu gwybodaeth, yn erbyn y niwed posibl i'r claf ac i'r ymddiriedaeth gyffredinol rhwng meddygon a chleifion, a fydd yn codi o ryddhau'r wybodaeth honno.

53 Efallai y bydd modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol ynghylch claf er budd y cyhoedd, heb sicrhau eu caniatâd, os y gallai methiant i'w datgelu olygu bod eraill yn agored i risg marwolaeth neu o ddioddef niwed difrifol. Dylech geisio caniatâd y claf i ddatgeliad o hyd os yw hynny'n ymarferol, gan ystyried unrhyw resymau a roddwyd dros wrthod rhoi caniatâd.

2 Mae gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) a Driver and Vehicle Agency (DVA) (Gogledd Iwerddon) gyfrifoldeb cyfreithiol dros benderfynu a yw unigolyn yn anghymwys i yrru am resymau meddygol. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt gael gwybod os bydd deiliad trwydded yrru yn dioddef cyflwr neu'n cael triniaeth a allai effeithio ar eu diogelwch fel gyrrwr nawr neu yn y dyfodol.

3 Dylech geisio cyngor cydweithiwr profiadol neu DVLA neu gynghorydd meddygol DVA os nad ydych yn siŵr a allai claf fod yn anghymwys i yrru. Dylech barhau i adolygu unrhyw benderfyniad eu bod yn gymwys, yn enwedig os bydd cyflwr neu driniaethau'r claf yn newid. Mae cyhoeddiad DVLA, *For Medical Practitioners – At a glance Guide to the current Medical Standards of Fitness to Drive* yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o anhwylderau a chyflyrau sy'n gallu amharu ar gymhwyster claf i yrru.

4 Mae gan y gyrrwr gyfrifoldeb cyfreithiol dros hysbysu DVLA neu DVA o fodolaeth cyflwr neu driniaeth o'r fath. Fodd bynnag, os bydd claf yn dioddef cyflwr o'r fath, dylech esbonio i'r claf:

(a) y gallai'r cyflwr effeithio ar eu gallu i yrru (os na all y claf ddeall y cyngor hwn, er enghraifft, oherwydd demensia, dylech hysbysu DVLA neu DVA ar unwaith), a
(b) bod ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i hysbysu DVLA neu DVA o'r cyflwr.

5 Os bydd claf yn gwrthod derbyn y diagnosis, neu effaith y cyflwr ar eu gallu i yrru, gallwch awgrymu y dylent geisio ail farn, a'u helpu wrth wneud y trefniadau ar gyfer hyn. Dylech gynghori'r claf i beidio gyrru yn y cyfamser.

6 Os bydd claf yn parhau i yrru pan fyddant yn anghymwys i wneud hynny efallai, dylech geisio gwneud pob ymdrech resymol i'w perswadio i roi'r gorau i hynny. Os yw'r claf yn cytuno, gallwch drafod eich pryderon gyda'u perthnasau, eu ffrindiau neu eu gofalwyr.

7 Os na fyddwch yn llwyddo i berswadio'r claf i beidio gyrru, neu os byddwch yn darganfod eu bod yn parhau i yrru gan fynd yn groes i'ch cyngor chi, dylech gysylltu â DVLA neu DVA ar unwaith, gan ddatgelu unrhyw wybodaeth feddygol berthnasol, yn gyfrinachol, i'r cynghorydd meddygol.

8 Cyn cysylltu â DVLA neu DVA, dylech geisio hysbysu'r claf o'ch penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth bersonol. Yna, dylech hysbysu'r claf yn ysgrifenedig hefyd ar ôl i chi wneud hynny.

Datgelu cofnodion at ddibenion ariannol a gweinyddol

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*, rydym yn cynghori:

> **33** Fel rheol, dylech geisio caniatâd diamwys claf cyn datgelu gwybodaeth adnabyddadwy at ddibenion ac eithrio darparu eu gofal neu weithgarwch archwilio clinigol lleol, megis yswiriant ac archwilio ariannol neu drefniadau hawlio budd-daliadau.
>
> **41** Ar gyfer sawl defnydd eilaidd, bydd yn ddigonol ac yn ymarferol datgelu gwybodaeth ddienw neu gododig yn unig. Pan fydd angen gwybodaeth adnabyddadwy, neu pan na fydd yn ymarferol cael gwared ar wybodaeth adnabyddadwy, bydd sicrhau caniatâd diamwys cleifion yn aml yn gam hollol ymarferol.
>
> **42** Mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth adnabyddadwy heb sicrhau caniatâd os bydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, os yw'n cael ei gymeradwyo dan adran 251 *Deddf GIG 2006*,[1] neu os bydd modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd ac:
>
> **(a)** mae'n angenrheidiol defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy, neu
> **(b)** nid yw'n ymarferol trefnu bod y wybodaeth yn ddienw neu'n gododig
>
> ac, yn y naill achos neu'r llall, nid yw'n ymarferol[2] ceisio caniatâd (neu mae ymdrechion i geisio caniatâd wedi bod yn aflwyddiannus).[3]

2 Os ydych yn gyfrifol am reoli cofnodion cleifion neu wybodaeth arall am gleifion, dylech sicrhau bod gwybodaeth ariannol a gweinyddol yn cael ei chofnodi ar wahân i wybodaeth glinigol.

3 Os gofynnir i chi ddatgelu gwybodaeth am gleifion at ddibenion ariannol neu weinyddol, dylech ddarparu gwybodaeth ddienw neu gododig pan fo hynny'n ymarferol, os bydd hynny'n ateb y diben. Os bydd angen darparu gwybodaeth adnabyddadwy, dylech geisio caniatâd diamwys y claf cyn ei datgelu os yw hynny'n ymarferol.

4 Rhaid i chi dynnu sylw at unrhyw system sy'n eich atal chi rhag dilyn yr arweiniad hwn, gan argymell newid. Nes bydd newidiadau'n cael eu gwneud, dylech sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion sy'n esbonio y gallai eu gwybodaeth bersonol gael ei datgelu at ddibenion ariannol, gweinyddol a dibenion tebyg, a'r hyn y gallant ei wneud os byddant yn gwrthwynebu. Os bydd claf yn gofyn, dylech esbonio natur a diben datgeliadau a wnaethpwyd at ddibenion ariannol a gweinyddol. Dylech wneud eich gorau i ymateb i unrhyw wrthwynebiadau. Os ydych yn fodlon nad oes modd cydymffurfio gyda dymuniadau'r claf, gan ddarparu gofal o hyd, dylech esbonio hyn i'r claf, gan esbonio'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

5 Dylech argyhoeddi'ch hun y bydd unrhyw un y modd iddynt droi at y wybodaeth, yn rhwym i ddyletswydd cyfrinachedd i beidio'i datgelu ymhellach.

6 Efallai y bydd angen datgelu yn ôl y gyfraith mewn rhai achosion, er enghraifft, wrth i'r Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG ymchwilio i dwyll, neu ar gyfer gweithgarwch wedi'i gymeradwyo dan adran 251 *Deddf GIG 2006*.[4]

7 Am ragor o wybodaeth am y ffordd y gall comisiynwyr droi at wybodaeth a gedwir gan bractisiau cyffredinol at ddibenion megis adolygiadau Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, trowch at y Cyfarwyddiadau *Cyfrinachedd a Datgelu Gwybodaeth* a'r *Cod Ymarfer* perthnasol.[5]

Ôl-nodion

1 Mae adran 251 *Deddf GIG 2006* yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig, lle y dylai meddygon geisio cyngor annibynnol Pwyllgor Moeseg a Chyfrinachedd y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth, gan ufuddhau i'r cyngor hwn.

2 Dylech ystyried a yw'r gwaith y mae angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu er mwyn ceisio caniatâd cleifion, yn rhesymol ar lefel ymarferol yn yr holl sefyllfaoedd. Dim ond os bydd angen gwneud ymdrech afresymol y dylech symud ymlaen i ystyried a oes modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth adnabyddadwy er budd y cyhoedd.

3 Os na fydd yn ymarferol sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu geisio neu sicrhau caniatâd cleifion heb wneud ymdrech afresymol, ac mae'r tebygolrwydd y bydd cleifion yn wynebu niwed neu ofid yn fach iawn, gallai datgelu at ddiben eilaidd pwysig fod yn gymesur. Dylech barchu gwrthwynebiadau cleifion i ddatgeliad.

4 Am gyngor pellach, trowch at baragraffau 17 i 20 *(Datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl statud)* a 40 i 50 *(Ymchwil a defnydd eilaidd arall)* y brif ddogfen arweiniad *Cyfrinachedd*.

5 *Confidentiality and Disclosure of Information: General Medical Services (GMS), Personal Medical Services (PMS) and Alternative Provider Medical Services (APMS) Directions 2005* a *Cod Ymarfer* (Adran Iechyd, 2005).

Confidentiality and Disclosure of Information: General Medical Services (GMS), Section 17c Agreements, and Health Board Primary Medical Services (HBPMS) Directions 2005 a *Cod Ymarfer* (Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban, 2005).

Confidentiality and Disclosure of Information: General Medical Services and Alternative Provider Medical Services Directions 2006 a Cod Ymarfer (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005).

Confidentiality and Disclosure of Information: General Medical Services and Alternative Provider Medical Services Directions (Northern Ireland) 2006 a Cod Ymarfer (Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd, 2006).

Adrodd anafiadau saethu a thrywanu

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*, rydym yn cynghori:

6 Mae cyfrinachedd yn rhan ganolog o'r ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion. Heb sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, efallai y bydd cleifion yn amharod i geisio sylw meddygol neu i roi'r wybodaeth angenrheidiol i feddygon er mwyn iddynt allu darparu gofal da ar eu cyfer. Ond mae rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer y claf unigol a chymuned ehangach y cleifion.

53 Efallai y bydd modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol ynghylch claf er budd y cyhoedd, heb sicrhau eu caniatâd, os y gallai methiant i'w datgelu olygu bod eraill yn agored i risg marwolaeth neu o ddioddef niwed difrifol. Dylech geisio caniatâd y claf i ddatgeliad o hyd os yw hynny'n ymarferol, gan ystyried unrhyw resymau a roddwyd dros wrthod rhoi caniatâd.

54 Gallai sefyllfa o'r fath godi, er enghraifft, pan fyddai datgeliad yn debygol o gynorthwyo wrth atal, datrys neu erlyn trosedd ddifrifol,[1] yn enwedig troseddau yn erbyn yr unigolyn. Pan fydd dioddefwyr trais yn gwrthod cymorth yr heddlu, efallai y bydd modd cyfiawnhau datgeliad o hyd os bydd eraill yn parhau i fod mewn perygl, er enghraifft, gan rywun sy'n barod i ddefnyddio arfau, neu gan drais domestig pan allai plant neu eraill fod mewn perygl.

55 Os bydd gwrthodiad claf i roi caniatâd ar gyfer datgeliad yn golygu bod eraill yn agored i risg mor ddifrifol fel ei fod yn drech na budd y claf a budd y cyhoedd o gynnal cyfrinachedd, neu os na fydd yn ymarferol neu'n ddiogel ceisio caniatâd y claf, dylech ddatgelu'r wybodaeth ar fyrder i awdurdod neu unigolyn priodol. Dylech hysbysu'r claf cyn datgelu'r wybodaeth, os yw'n ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny, hyd yn oed os ydych yn bwriadu ei datgelu heb sicrhau eu caniatâd.

2 Mae'r arweiniad yn *Cyfrinachedd* yn berthnasol i'r holl droseddau treisgar, ond mae anafiadau saethu a thrywanu yn codi materion y mae angen rhoi ystyriaeth arbennig iddynt. Nid yw hynny'n awgrymu na ddylid datgelu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo wrth atal, datrys neu erlyn troseddau difrifol eraill.

3 Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio proses dau gam:

(a) Dylech hysbysu'r heddlu yn gyflym pryd bynnag y bydd unigolyn yn cyrraedd sydd wedi dioddef anaf saethu neu anaf yn dilyn ymosodiad gan gyllell, llafn neu offeryn miniog arall. Bydd hyn yn galluogi'r heddlu i lunio asesiad o'r risg i'r claf ac i eraill, ac i gasglu gwybodaeth ystadegol am droseddau saethu a thrywanu yn yr ardal.
(b) Dylech ffurfio barn broffesiynol ynghylch a fydd modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol am glaf, gan gynnwys eu manylion personol, er budd y cyhoedd.

Adrodd anafiadau saethu a thrywanu

4 Mae'r heddlu yn gyfrifol am asesu'r risg a achosir gan aelod o'r cyhoedd y mae ganddynt ddryll neu gyllell ac y maent wedi defnyddio'r dryll hwn neu'r gyllell hon yn ystod ymosodiad treisgar. Bydd angen iddynt ystyried:

(a) risg ymosodiad pellach ar y claf
(b) y risg i staff, cleifion ac ymwelwyr yn yr adran Ddamweiniau ac Achosion Brys neu'r ysbyty, a
(c) risg ymosodiad arall yn safle'r digwyddiad gwreiddiol neu gerllaw.

5 Am y rheswm hwn, dylid hysbysu'r heddlu pryd bynnag y bydd unigolyn yn cyrraedd yr ysbyty gydag anaf saethu. Mae hyn yn oed achosion lle y mae rhywun wedi cael eu saethu'n ddamweiniol gan ddryll y mae'n gyfreithiol i rywun ei gadw, yn codi materion difrifol i'r heddlu ynghylch trwyddedu gynnau, er enghraifft.

6 Yn ogystal, dylid hysbysu'r heddlu pan fydd rhywun yn cyrraedd yr ysbyty sy'n dioddef anaf yn dilyn ymosodiad gyda chyllell, llafn neu offeryn miniog arall.

7 Fel arfer, ni ddylid hysbysu'r heddlu os yw'r anaf a achoswyd gan gyllell neu lafn wedi digwydd trwy ddamwain, neu o ganlyniad i weithgarwch hunan-niweidio. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch achos yr anaf, dylech drafod y mater gyda chydweithiwr profiadol os oes modd.

8 Gallai adrodd cyflym ar yr adeg hon helpu i atal digwyddiadau pellach neu niwed pellach i eraill. Os oes gennych gyfrifoldeb dros y claf, dylech sicrhau bod yr heddlu yn cael eu hysbysu, ond mae modd i chi ddirprwyo'r dasg hon i aelod arall o staff.

9 Fel arfer, ni ddylid datgelu gwybodaeth bersonol, megis enw a chyfeiriad y claf, yn ystod y cyswllt cychwynnol gyda'r heddlu. Bydd yr heddlu yn ymateb hyd yn oed os na ddatgelir manylion personol y claf. Mae angen hysbysu'r heddlu yn gyflym er mwyn iddynt ymateb i'r risg i gleifion, staff a'r cyhoedd. Yn ogystal, bydd angen iddynt gael gwybodaeth ystadegol am nifer yr anafiadau saethu a thrywanu, a phryd a ble y byddant yn digwydd, er mwyn i hyn ddylanwadu ar eu blaenoriaethau strategol a gweithrediadol nhw, a blaenoriaethau eu partneriaid sy'n gyfrifol am leihau troseddau.

10 Pan fydd yr heddlu yn cyrraedd, ni ddylech adael iddynt weld y claf os bydd hyn yn oedi neu'n amharu ar y driniaeth, neu os bydd yn amharu ar wellhad y claf.

11 Os bydd triniaeth a chyflwr y claf yn golygu bod modd iddynt siarad gyda'r heddlu, dylech chi neu aelod arall o'r tîm gofal iechyd holi'r claf a ydynt yn fodlon gwneud hynny. Os nad ydynt, dylech esbonio'r canlyniadau posibl, os o gwbl. Rhaid i chi, gweddill y tîm gofal iechyd, a'r heddlu dderbyn penderfyniad y claf.

Datgelu gwybodaeth bersonol heb sicrhau caniatâd

12 Os yw'n debygol bod trosedd wedi cael ei chyflawni, bydd yr heddlu yn gofyn am ragor o wybodaeth. Os na fydd modd i'r claf roi eu caniatâd oherwydd, er enghraifft, eu bod yn anymwybodol, neu os byddant yn gwrthod datgelu gwybodaeth neu ganiatáu i chi neu'ch cydweithwyr i wneud hynny, bydd modd i chi ddatgelu gwybodaeth o hyd os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu os ydych o'r farn bod modd cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd.

13 Efallai y bydd modd cyfiawnhau datgeliadau er budd y cyhoedd:

- **(a)** pan allai methu datgelu gwybodaeth roi'r claf, neu rywun arall, mewn perygl o ddioddef niwed difrifol neu farwolaeth, neu
- **(b)** pan fo datgelu yn debygol o helpu wrth atal, datrys neu erlyn trosedd ddifrifol.

14 Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch a oes modd cyfiawnhau datgeliad heb sicrhau caniatâd, dylai'r penderfyniad gael ei wneud gan yr ymgynghorydd cyfrifol, neu Warcheidwad Caldicott, neu gyda'u cytundeb.

15 Os yw hynny'n ymarferol, dylech geisio caniatâd y claf i'r datgeliad, neu ddweud wrthynt bod datgeliad wedi cael ei wneud, oni bai, er enghraifft:

- **(a)** y gallai hynny eich rhoi chi neu eraill mewn perygl o ddioddef niwed difrifol, neu
- **(b)** y byddai'n debygol o danseilio diben y datgeliad, trwy beryglu gweithgarwch i atal, datrys neu erlyn trosedd.

16 Rhaid i chi gofnodi'ch rhesymau dros ddatgelu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd yng nghofnod y claf, ynghyd ag unrhyw gamau yr ydych wedi'u cymryd i geisio'u caniatâd, i'w hysbysu o'r datgeliad, neu'ch rhesymau dros beidio gwneud hynny.

17 Os nad oes unrhyw reswm cyfredol sy'n ymwneud â budd y cyhoedd dros ddatgelu gwybodaeth bersonol, ni ddylid rhoi gwybodaeth bellach i'r heddlu. Gallai'r heddlu geisio gorchymyn gan farnwr neu warant er mwyn datgelu dogfennau cyfrinachol.[2]

18 Dylech hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am ofal parhaus y claf bod angen cynnal trafodaeth bellach gyda'r claf er mwyn sicrhau, er enghraifft, eu bod yn unigolyn addas i ddal trwydded arf tanio.

Plant a phobl ifanc

19 Mae'n amlwg y bydd unrhyw blentyn neu berson ifanc dan 18 oed sy'n cyrraedd gydag anaf saethu neu anaf yn dilyn ymosodiad gan gyllell, llafn neu offeryn miniog arall, yn codi pryderon amddiffyn plant amlwg. Rhaid i chi hysbysu unigolyn neu awdurdod priodol o unrhyw ddigwyddiad o'r fath yn ddi-oed.

20 Gallai anafiadau a achoswyd gan gyllell neu lafn yn ystod damweiniau domestig neu alwedigaethol godi pryderon difrifol ynghylch diogelwch plant a phobl ifanc hefyd. Dylech ystyried y cyngor a roddir ynghylch amddiffyn plant yn *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg* pryd bynnag y byddwch yn pryderu y gallai plentyn fod yn dioddef cam-drin neu esgeulustod.

21 Efallai y bydd modd i chi gyfiawnhau penderfyniad i beidio rhannu pryder bod plant neu bobl ifanc mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu o ddioddef niwed difrifol arall, ar ôl cael cyngor gan feddyg penodol neu ddynodedig dros ddiogelu plant, neu gydweithiwr profiadol, neu gorff proffesiynol neu amddiffyn.

22 Trowch at *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg* am ragor o wybodaeth a chyngor ynghylch rolau a chyfrifoldebau meddygon tuag at blant a phobl ifanc.

Ôl-nodion

1 Ni cheir diffiniad y cytunwyd arno ar gyfer 'trosedd ddifrifol'. Mae *Cyfrinachedd: Cod Ymarfer GIG* (Adran Iechyd, 2003) yn cynnig rhai enghreifftiau o droseddau difrifol (gan gynnwys llofruddiaeth, dynladdiad, trais a cham-drin plant; gwneir cyfeiriad at niwed difrifol i ddiogelwch y wladwriaeth a threfn gyhoeddus a 'throseddau sy'n cynnwys elw neu golled ariannol sylweddol' yn yr un categori). Yn ogystal, mae'n cynnig enghreifftiau o droseddau nad ydynt yn rhai digon difrifol fel arfer er mwyn mynnu datgeliad heb ganiatâd (gan gynnwys dwyn, twyll a difrod i eiddo lle y mae'r golled neu'r difrod yn llai sylweddol).

2 Gweler Atodlen 1 *Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984*, Atodlen 1 *Police and Criminal Evidence (Northern Ireland) Order 1989* ac adran 135 *Criminal Procedure (Scotland) Act 1995*. Yn ogystal, gall yr heddlu ddefnyddio pwerau i feddiannu tystiolaeth, megis dillad, a allai helpu wrth ddatrys neu erlyn trosedd.

Datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol[1]

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*, rydym yn cynghori:

6 Mae cyfrinachedd yn rhan ganolog o'r ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion. Heb sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, efallai y bydd cleifion yn amharod i geisio sylw meddygol neu i roi'r wybodaeth angenrheidiol i feddygon er mwyn iddynt allu darparu gofal da ar eu cyfer. Ond mae rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer y claf unigol a chymuned ehangach y cleifion.

17 Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth er mwyn bodloni gofyniad statudol penodol, megis hysbysu ynghylch achosion hysbys o glefydau heintus penodol neu achosion dan amheuaeth.

36 Mae'n amlwg bod cael gwasanaeth meddygol cyfrinachol o fudd i'r cyhoedd. Mae'r ffaith bod pobl yn cael eu hannog i geisio cyngor a thriniaeth, gan gynnwys cyngor a thriniaeth ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, yn cynnig budd i'r gymdeithas gyfan, yn ogystal â'r unigolyn. Mae gofal meddygol cyfrinachol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith fel rhywbeth sy'n cynnig budd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallai datgelu gwybodaeth gynnig budd i'r cyhoedd hefyd: er mwyn diogelu unigolion neu gymdeithas rhag risgiau niwed difrifol, megis clefydau trosglwyddadwy difrifol neu droseddau difrifol; neu er mwyn galluogi gwaith ymchwil meddygol, addysg neu ddefnydd eilaidd arall o wybodaeth a fydd yn cynnig budd i gymdeithas gydag amser.

37 Felly, bydd modd datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, heb sicrhau caniatâd claf, ac mewn achosion arbennig pan fo cleifion wedi gwrthod rhoi eu caniatâd, os bydd y budd i unigolyn neu i gymdeithas o wneud y datgeliad, yn drech na budd y claf a'r budd i'r cyhoedd o gadw'r

wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i chi bwyso'r niwed sy'n debygol o ddigwydd o beidio datgelu gwybodaeth, yn erbyn y niwed posibl i'r claf ac i'r ymddiriedaeth gyffredinol rhwng meddygon a chleifion, a fydd yn codi o ryddhau'r wybodaeth honno.

53 Efallai y bydd modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol ynghylch claf er budd y cyhoedd, heb sicrhau eu caniatâd, os y gallai methiant i'w datgelu olygu bod eraill yn agored i risg marwolaeth neu o ddioddef niwed difrifol. Dylech geisio caniatâd y claf i ddatgeliad o hyd os yw hynny'n ymarferol, gan ystyried unrhyw resymau a roddwyd dros wrthod rhoi caniatâd.

2 Mae cyfrinachedd yn bwysig i bob claf. Gallai'r rhai y mae ganddynt, neu y gallai fod ganddynt, glefyd trosglwyddadwy difrifol, deimlo'n bryderus iawn am eu preifatrwydd. Dylech sicrhau bod y wybodaeth yr ydych yn ei chadw neu'n ei rheoli ac sy'n sôn am statws heintiol claf, yn cael ei diogelu rhag datgeliadau amhriodol mewn ffordd effeithiol bob amser. Mae gan bob claf yr hawl i fanteisio ar ofal o safon da, beth bynnag fo'u statws, y clefyd sydd ganddynt, neu sut y cawsant y clefyd hwnnw.

Gweithwyr gofal iechyd y mae ganddynt, neu y gallai fod ganddynt, glefyd trosglwyddadwy difrifol

3 Mae *Arfer Meddygol Da* yn nodi:

78 Dylech ddiogelu eich cleifion, eich cydweithwyr a'ch hunan trwy gael eich brechu yn erbyn clefydau heintus difrifol cyffredin pan fo brechiadau ar gael.

79 Os ydych yn gwybod bod gennych, neu os ydych yn credu y gallai fod

gennych, gyflwr difrifol y gallech ei drosglwyddo i gleifion, neu os allai'ch barn neu'ch perfformiad gael ei effeithio gan gyflwr neu ei driniaeth, rhaid i chi ymgynghori â chydweithiwr sy'n meddu ar gymwysterau addas. Rhaid i chi ofyn am eu cyngor ynghylch archwiliadau, triniaeth a newidiadau i'ch arfer os byddant o'r farn bod hynny yn angenrheidiol, a dilyn y cyngor hwn. Ni ddylech ddibynnu ar eich asesiad chi o'r risg yr ydych yn ei achosi i gleifion.

4 Dylech godi unrhyw bryder rhesymol sydd gennych am unrhyw weithiwr gofal iechyd y mae ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol ac y maent yn gweithredu, neu y maent wedi gweithredu, mewn ffordd sy'n golygu bod cleifion mewn perygl o gael eu heintio.[2]

5 Dylech hysbysu'r corff sy'n cyflogi neu sy'n contractio'r gweithiwr gofal iechyd o'ch pryderon, trwy ei wasanaeth iechyd galwedigaethol yn ddelfrydol neu, pan fo hynny'n briodol, trwy eu corff rheoleiddio. Dylech hysbysu'r gweithiwr gofal iechyd cyn trosglwyddo'r wybodaeth, ar yr amod ei bod yn ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny.

6 Am ragor o gyngor ynghylch cydweithwyr a allai beri risg i gleifion, trowch at ein harweiniad ynghylch *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion*.

Cleifion y rhoddir diagnosis iddynt eu bod yn dioddef clefyd trosglwyddadwy difrifol

7 Dylech sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion sy'n esbonio y bydd gwybodaeth bersonol amdanynt yn cael ei rhannu o fewn y tîm gofal iechyd, gan gynnwys staff gweinyddol a staff eraill sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal ar eu cyfer, oni bai eu bod yn gwrthwynebu, a pham bod angen gwneud hyn.

8 Os bydd claf yn gwrthod caniatáu i chi hysbysu rhywun y tu allan i'r tîm gofal iechyd o'u statws heintiol, rhaid i chi barchu eu dymuniadau oni bai eich bod o'r farn y bydd methu datgelu'r wybodaeth yn golygu bod gweithwyr gofal iechyd a chleifion eraill mewn perygl o gael eu heintio. Ond mae sefyllfaoedd o'r fath yn debygol o fod yn brin iawn, yn rhannol oherwydd y defnyddir rhagofalon cyffredinol i ddiogelu gweithwyr gofal iechyd a chleifion, yn enwedig yn ystod gweithdrefnau lle y bydd unigolion yn fwy agored i gael eu heintio.

9 Dylech esbonio i gleifion sut y gallant ddiogelu eraill rhag cael eu heintio, gan gynnwys y mesurau ymarferol y bydd modd iddynt eu cymryd er mwyn osgoi trosglwyddo, a phwysigrwydd hysbysu cysylltiadau rhywiol ynghylch perygl trosglwyddo clefydau trosglwyddadwy difrifol a drosglwyddir yn rhywiol.

Hysbysu cysylltiadau rhywiol cleifion y mae ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol

10 Gallwch ddatgelu gwybodaeth i gyswllt rhywiol hysbys claf y mae ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol a drosglwyddir yn rhywiol os oes gennych reswm dros gredu eu bod mewn perygl o gael eu heintio ac nad yw'r claf wedi eu hysbysu, ac nad oes modd eu perswadio i wneud hynny.[3] Mewn amgylchiadau o'r fath, dylech hysbysu'r claf cyn i chi wneud y datgeliad, os yw'n ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny. Rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth bersonol heb sicrhau caniatâd.

11 Pan fyddwch yn olrhain cysylltiadau ac yn hysbysu partneriaid, ni ddylech ddatgelu manylion personol y claf os yw hynny'n ymarferol.

Plant a phobl ifanc

12 Rhaid i chi roi'r pwys pennaf ar eich claf; ond dylech ystyried a gweithredu er lles pennaf plant eich claf hefyd.

13 Bydd y rhan fwyaf o gleifion y mae ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol ac y maent yn rhieni neu'n gofalu am blant, yn gwneud popeth y gallant ei wneud er mwyn diogelu'r plant hynny rhag cael eu heintio gan y clefyd neu ei effeithiau. Dylech sicrhau bod y claf yn deall y wybodaeth a'r cyngor y byddwch yn ei gynnig, a ddylai gael ei addasu i'w hanghenion. Dylech wneud popeth y gallwch ei wneud yn rhesymol er mwyn eu cynorthwyo i ofalu am eu hunain ac wrth ddiogelu eu plant.

14 Dylech esbonio pwysigrwydd profi unrhyw blant a allai fod wedi cael eu heintio yn barod i glaf y mae ganddynt glefyd trosglwyddadwy difrifol, gan gynnwys plant nad ydynt yn dangos unrhyw symptomau, a phobl ifanc a allai fod wedi cael eu heintio'n fertigol gan firws a gludir yn y gwaed.

15 Os ydych yn pryderu bod plentyn mewn perygl o ddioddef niwed difrifol oherwydd nad oes modd perswadio eu rhieni i'w diogelu rhag y perygl o gael eu heintio, neu oherwydd eu bod yn gwrthod rhoi eu caniatâd i'r plentyn cael eu profi, dylech geisio cyngor cyfreithiol ynghylch a ddylid gwneud cais i'r llys am benderfyniad sy'n ymwneud â budd pennaf y plentyn.

16 Trowch at *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg* am ragor o wybodaeth am gyfrinachedd a chaniatâd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, ac ynghylch amddiffyn plant, y mae'n gyfrifoldeb pob meddyg.

Anafiadau i weithwyr gofal iechyd ac eraill

17 Dylech sicrhau bod cydweithiwr cymwys priodol yn cynnal asesiad risg ar unwaith os bydd gweithiwr gofal iechyd, heddwas neu unrhyw un arall yn dioddef anaf nodwydd neu anaf tebyg arall sy'n cynnwys claf y maent yn dioddef, neu y gallent fod yn dioddef, clefyd trosglwyddadwy difrifol. Dylid cynnig proffylacsis ôl-gysylltiad yn unol â'r asesiad risg hwnnw, a ddylai gynnwys ystyriaeth o'r math o sylwedd neu hylif y corff dan sylw, a llwybr a difrifoldeb y cysylltiad.[4]

18 Dylech ofyn am ganiatâd y claf i ddatgelu eu statws heintiol ar ôl cysylltiad gyda chlefyd trosglwyddadwy difrifol. Os na fydd modd perswadio'r claf i roi eu caniatâd i'r datgeliad, neu os nad yw'n ddiogel neu'n ymarferol i chi ofyn am eu caniatâd, efallai y gallwch ddatgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd. Gallai hyn fod, er enghraifft, os bydd angen y wybodaeth er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch priodoldeb parhaus proffylacsis ôl-gysylltiad.

Cofnodi clefydau trosglwyddadwy difrifol ar dystysgrifau marwolaeth

19 Os bydd clefyd trosglwyddadwy difrifol wedi cyfrannu at achos y farwolaeth, rhaid i chi gofnodi hyn ar y dystysgrif marwolaeth.

Rheoli a goruchwylio clefydau trosglwyddadwy difrifol

20 Dylech drosglwyddo gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol i'r awdurdodau perthnasol at ddibenion rheoli a goruchwylio clefydau trosglwyddadwy difrifol. Dylech ddefnyddio gwybodaeth ddienw neu godedig, os yw hynny'n ymarferol ac os bydd yn bodloni'r diben.

Ôl-nodion

1 Yn yr arweiniad hwn, mae'r term 'clefyd trosglwyddadwy difrifol' yn berthnasol i unrhyw glefyd y bydd modd ei drosglwyddo o unigolyn i unigolyn, ac sy'n gallu arwain at farwolaeth neu salwch difrifol. Yn arbennig, mae'n berthnasol i, ond nid wedi ei gyfyngu i, HIV, twbercwlosis, a hepatitis B a C.

2 Gweler *Health clearance for tuberculosis, hepatitis B, hepatitis C and HIV: New healthcare workers* (Adran Iechyd, 2007), *Health Clearance for Tuberculosis, Hepatitis B, Hepatitis C and HIV for new Healthcare Workers with direct clinical contact with patients* (Llywodraeth yr Alban, 2008), *HIV-infected health care workers: Guidance on management and patient notification* (Adran Iechyd, 2005) a *HIV Infected Health Care Workers: Guidance on Management and Patient Notification* (Llywodraeth yr Alban, 2005), y maent oll yn cynnwys enghreifftiau o gyngor ynghylch arferion y maent yn debygol o olygu cyswllt, gan Banel Cynghori y DU ar Weithwyr Gofal Iechyd y maent wedi'u Heintio gyda Firysau a Gludir yn y Gwaed.

3 Mae *Rheoliadau GIG* (Clefydau Gwenerol) *1974*, *Cyfarwyddyd Ymddiriedolaethau GIG* (Clefydau Gwenerol) *1991* a *Chyfarwyddyd Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol (Clefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol) 2000* yn nodi bod yn rhaid i gyrff GIG amrywiol yng Nghymru a Lloegr 'gymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw wybodaeth sy'n gallu enwi unigolyn... o ran unigolion sy'n cael eu harchwilio neu eu trin am unrhyw glefyd a drosglwyddir yn rhywiol, yn cael ei datgelu ac eithrio – (a) er mwyn cyfleu'r wybodaeth honno i ymarferydd meddygol, neu i unigolyn a gyflogir dan gyfarwyddyd ymarferydd meddygol mewn cysylltiad â'r driniaeth ar gyfer unigolion sy'n dioddef clefyd o'r fath neu er mwyn ei atal rhag lledaenu, a (b) at ddibenion triniaeth a gweithgarwch atal o'r fath'. Ceir gwahanol ddehongliadau o'r Rheoliadau a'r Cyfarwyddyd, a phryderon ynghylch eu cydnawsedd gyda'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn arbennig, mynegwyd pryderon y byddai dehongliad caeth yn atal datgelu gwybodaeth

berthnasol, ac eithrio i feddygon eraill neu'r rhai sy'n gweithio dan eu goruchwyliaeth, hyd yn oed ar ôl sicrhau caniatâd y claf, neu i gysylltiadau rhywiol hysbys er budd y cyhoedd. Rydym o'r farn nad yw'r Rheoliadau a'r Cyfarwyddyd yn atal datgelu os byddai'n gyfreithlon fel arall yn ôl cyfraith gwlad, er enghraifft, gyda chaniatâd y claf neu er budd y cyhoedd heb sicrhau caniatâd.

4 *Guidance for clinical health care workers: protection against infection with blood-borne viruses – Expert Advisory Group on AIDS and the Advisory Group on Hepatitis* (Adran Iechyd, 1998)*; HIV post-exposure prophylaxis: guidance from the UK Chief Medical Officers' Expert Advisory Group on AIDS* (Adran Iechyd, 2008).

Datgelu gwybodaeth at ddibenion yswiriant, cyflogaeth a dibenion tebyg

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*, rydym yn cynghori:

7 ...Rhaid i chi hysbysu cleifion ynghylch datgeliadau a wneir at ddibenion na fyddai'n rhesymol iddynt eu disgwyl, neu sicrhau eu bod eisoes wedi cael gwybodaeth am ddatgeliadau o'r fath.

33 Fel rheol, dylech geisio caniatâd diamwys claf cyn datgelu gwybodaeth adnabyddadwy at ddibenion ac eithrio darparu eu gofal neu weithgarwch archwilio clinigol lleol, megis yswiriant ac archwilio ariannol neu drefniadau hawlio budd-daliadau.

34 Os gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth i drydydd partïon, megis cwmni yswiriant neu gyflogwr claf, neu asiantaeth neu adran o'r llywodraeth sy'n asesu hawl rhywun i gael budd-daliadau, naill ai trwy droi at gofnodion sy'n bodoli eisoes neu'n dilyn archwiliad:

- **(a)** dylech deimlo'n fodlon bod y claf yn meddu ar wybodaeth ddigonol am gwmpas, diben a goblygiadau tebygol y gweithgarwch archwilio a datgelu, a'r ffaith nad oes modd gwrthod darparu neu guddio gwybodaeth berthnasol
- **(b)** dylech sicrhau neu fod wedi gweld caniatâd ysgrifenedig i'r datgeliad gan y claf neu gan unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cywir i weithredu ar ran y claf; gallwch dderbyn sicrhad gan swyddog mewn asiantaeth neu adran o'r llywodraeth neu gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n gweithredu ar eu rhan, bod y claf neu unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cywir i weithredu ar eu rhan, wedi rhoi eu caniatâd

(c) dim ond gwybodaeth ffeithiol y mae modd i chi ei chadarnhau y dylech ei datgelu, a'i chyflwyno mewn ffordd ddiduedd ac sy'n berthnasol i'r cais; felly ni ddylech ddatgelu'r cofnod cyfan fel arfer, er y gallai fod yn berthnasol i rai budd-daliadau a delir gan adrannau'r llywodraeth ac i asesiadau eraill o hawl cleifion i gael pensiynau neu fudd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig gydag iechyd, a

(d) dylech gynnig dangos i'ch claf neu roi copi i'ch claf o unrhyw adroddiad y byddwch yn ei ysgrifennu amdanynt at ddibenion cyflogaeth neu yswiriant, cyn y bydd yn cael ei anfon, oni bai:

(i) eu bod eisoes wedi nodi nad ydynt yn dymuno'i weld

(ii) y byddai ei ddatgelu yn debygol o achosi niwed difrifol i'r claf neu i unrhyw un arall

(iii) y byddai ei ddatgelu yn debygol o ddatgelu gwybodaeth am unigolyn arall nad ydynt yn rhoi eu caniatâd.[1]

35 Os bydd claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd, neu os na fydd yn ymarferol sicrhau eu caniatâd, bydd modd datgelu gwybodaeth o hyd os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu os bydd modd cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd (gweler paragraffau 36 i 56). Os yw'r diben yn cael ei gynnwys mewn rheoliad a wnaethpwyd dan adran 25 *Deddf GIG 2006*, bydd modd gwneud datgeliadau hefyd heb sicrhau caniatâd claf, ond nid os bydd y claf wedi gwrthwynebu.

2 Dyletswydd gyntaf meddyg sydd wedi cofrestru gyda CMC yw rhoi'r pwys pennaf ar ofal eu claf. Yn ogystal, mae'r term 'claf' yn yr arweiniad hwn yn cyfeirio at gyflogeion, cleientiaid, athletwyr ac unrhyw un arall yr ydych yn cadw eu gwybodaeth bersonol neu y gallwch droi at eu gwybodaeth bersonol, os ydych yn gofalu amdanynt mewn perthynas therapiwtig draddodiadol neu beidio.

3 Ceir nifer o amgylchiadau pan ofynnir i feddyg ddatgelu gwybodaeth efallai, naill ai ar ôl iddynt archwilio claf neu o ganlyniad i gofnodion claf sy'n bodoli eisoes, a lle y byddant yn wynebu 'rhwymedigaethau deuol'. Fel arfer, bydd rhwymedigaethau deuol yn codi pan fydd meddyg yn gweithio i, neu'n cael eu contractio gan, neu fel arall yn darparu gwasanaethau ar gyfer:

- **(a)** cyflogwr claf (fel meddyg iechyd galwedigaethol)
- **(b)** cwmni yswiriant
- **(c)** asiantaeth sy'n asesu hawl hawliwr i gael budd-daliadau
- **(d)** yr heddlu (fel llawfeddyg yr heddlu)
- **(e)** y lluoedd arfog
- **(f)** gwasanaeth y carchardai, neu
- **(g)** gymdeithas neu dîm chwaraeon.[2]

4 Neu, efallai y bydd unigolyn neu sefydliad nad ydych wedi cael unrhyw berthynas uniongyrchol gyda nhw yn y gorffennol, megis cyflogwr neu gwmni yswiriant eich claf, yn gofyn i chi ddarparu adroddiad meddygol neu wybodaeth am glaf. Efallai y cynigir taliad i chi am eich amser a'ch ymdrech chi neu amser ac ymdrech eich staff, gan arwain at rwymedigaeth sy'n ychwanegol i'r un y mae gennych tuag at eich claf.

Graddau'r datgeliad

5 Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais am ddatgeliad y dylech ei darparu, sy'n golygu na ddylech ddatgelu cofnod cyfan gwbl claf fel arfer. Mae eithriadau i'r rheol gyffredinol hon yn cynnwys hawliadau budd-dal a gweithgarwch ymgyfreitha.

6 Gallai'r cofnod cyfan gwbl fod yn berthnasol i rai fudd-daliadau a delir gan adrannau neu asiantaethau'r llywodraeth.

7 Efallai y bydd angen i gyfreithiwr weld cofnod cyfan gwbl eu claf er mwyn asesu pa rannau sy'n berthnasol, er enghraifft, i hawliadau anafiadau personol. Os bydd yr hawliad yn mynd yn ei flaen, efallai y bydd yr unigolyn y mae'r hawliad yn cael ei wneud yn eu herbyn, yn gofyn am gopïau o ddogfennau pwysig, a allai gynnwys cofnodion sy'n cynnwys hanes meddygol y claf. Dan reolau llysoedd barn yng Nghymru a Lloegr, gallant weld holl gofnodion iechyd claf. Dylai'r cyfreithiwr esbonio hyn i'r claf. Yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, dylech ddatgelu cofnodion yn unol â dymuniadau eich claf, neu'n unol â'r hyn a fydd yn cael ei orchymyn gan lys.[3]

Ysgrifennu adroddiadau

8 Pan fyddwch yn ysgrifennu adroddiad, rhaid i chi:

- **(a)** wneud eich gorau i sicrhau nad yw'n anghywir neu'n gamarweiniol; rhaid i chi gymryd camau rhesymol i ddilysu'r wybodaeth yn yr adroddiad, ac ni ddylech hepgor unrhyw wybodaeth berthnasol yn fwriadol
- **(b)** cwblhau ac anfon yr adroddiad heb unrhyw oedi afresymol[4]
- **(c)** cyfyngu'r adroddiad i feysydd y mae gennych brofiad uniongyrchol neu wybodaeth berthnasol amdanynt, a
- **(d)** sicrhau bod unrhyw farn y byddwch yn ei chynnwys yn gytbwys, a'ch bod yn gallu nodi'r ffeithiau neu'r tybiaethau y seiliwyd y farn honno arnynt.[5]

Ôl-nodion

1 Os bydd unrhyw rai o'r eithriadau yn berthnasol, dylech ddatgelu cymaint o'r adroddiad ag y gallwch o hyd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi cyngor ynghylch adroddiadau at ddibenion budd-daliadau (trowch at **www.dwp.gov.uk/healthcare-professional/guidance**).

2 Efallai y bydd meddygon yn darparu eu gwasanaethau i glybiau chwaraeon proffesiynol (pan fo'r rhwymedigaeth ddeuol i'r claf ac i'r clwb, sy'n debyg iawn i rwymedigaeth ddeuol meddyg iechyd galwedigaethol) neu i gymdeithasau (lle y mae'r rhwymedigaeth ddeuol i'r claf ac i gorff llywodraethu neu dîm o ddetholwyr).

3 Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chymdeithas Feddygol Prydain yn cyhoeddi ffurflenni caniatâd model ar y cyd, sy'n awdurdodi rhyddhau cofnodion iechyd i gyfreithwyr dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (gweler **www.bma.org.uk/ethics/health_ records**). Mae'r ffurflenni yn cynnwys nodiadau i gleientiaid, cyfreithwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol.

4 Gweler *Arfer Meddygol Da* (CMC, 2006), paragraffau 63 i 69.

5 Gweler *Gweithredu fel tyst arbenigol* (CMC, 2008).

Datgelu gwybodaeth at ddibenion addysg a hyfforddiant

1 Yn ein harweiniad Cyfrinachedd, rydym yn cynghori:

36 Mae'n amlwg bod cael gwasanaeth meddygol cyfrinachol o fudd i'r cyhoedd. Mae'r ffaith bod pobl yn cael eu hannog i geisio cyngor a thriniaeth, gan gynnwys cyngor a thriniaeth ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, yn cynnig budd i'r gymdeithas gyfan, yn ogystal â'r unigolyn. Mae gofal meddygol cyfrinachol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith fel rhywbeth sy'n cynnig budd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallai datgelu gwybodaeth gynnig budd i'r cyhoedd hefyd: er mwyn diogelu unigolion neu gymdeithas rhag risgiau niwed difrifol, megis clefydau trosglwyddadwy difrifol neu droseddau difrifol; neu er mwyn galluogi gwaith ymchwil meddygol, addysg neu ddefnydd eilaidd arall o wybodaeth a fydd yn cynnig budd i gymdeithas gydag amser.

37 Felly, bydd modd datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, heb sicrhau caniatâd claf, ac mewn achosion arbennig pan fo cleifion wedi gwrthod rhoi eu caniatâd, os bydd y budd i unigolyn neu i gymdeithas o wneud y datgeliad, yn drech na budd y claf a'r budd i'r cyhoedd o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i chi bwyso'r niwed sy'n debygol o ddigwydd o beidio datgelu gwybodaeth, yn erbyn y niwed posibl i'r claf ac i'r ymddiriedaeth gyffredinol rhwng meddygon a chleifion, a fydd yn codi o ryddhau'r wybodaeth honno.

40 Mae ymchwil, epidemioleg, goruchwylio iechyd y cyhoedd, cynllunio gwasanaethau iechyd, ac addysg a hyfforddiant ymhlith y defnydd eilaidd pwysig a wneir o wybodaeth am gleifion. Gall pob un o'r rhain gynnig budd pwysig i'r cyhoedd.

41 Ar gyfer sawl defnydd eilaidd, bydd yn ddigonol ac yn ymarferol datgelu gwybodaeth ddienw neu godedig yn unig. Pan fydd angen gwybodaeth adnabyddadwy, neu pan na fydd yn ymarferol cael gwared ar wybodaeth adnabyddadwy, bydd sicrhau caniatâd diamwys cleifion yn aml yn gam hollol ymarferol.

42 Mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth adnabyddadwy heb sicrhau caniatâd os bydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, os yw'n cael ei gymeradwyo dan adran 251 *Deddf GIG 2006*, neu os bydd modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd ac:

(a) mae'n angenrheidiol defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy, neu
(b) nid yw'n ymarferol trefnu bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig

ac, yn y naill achos neu'r llall, nid yw'n ymarferol[1] ceisio caniatâd (neu mae ymdrechion i geisio caniatâd wedi bod yn aflwyddiannus).[2]

43 Wrth ystyried a yw'n ymarferol ceisio caniatâd, rhaid i chi ystyried:

(a) oedran cofnodion a pha mor debygol yw hi y bydd modd olrhain cleifion
(b) nifer y cofnodion, a'r
(c) posibilrwydd o gyflwyno tuedd oherwydd cyfradd ymateb isel neu oherwydd bod grwpiau penodol o gleifion yn gwrthod neu'n methu ymateb i geisiadau i ddefnyddio'u gwybodaeth.

2 Mae defnyddio gwybodaeth am gleifion yn rhan hanfodol o addysg a hyfforddiant hyfforddeion a myfyrwyr meddygol a hyfforddeion a myfyrwyr gofal iechyd eraill. Ar gyfer mwyafrif y defnydd hwn, bydd gwybodaeth ddienw yn ddigonol a dylid ei defnyddio pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

3 Pan fydd angen defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy am glaf, neu pan na fydd yn ymarferol sicrhau bod gwybodaeth yn ddienw, dylech geisio caniatâd y claf cyn ei datgelu. Dylech sicrhau na fydd y claf dan unrhyw bwysau i roi eu caniatâd. Yn arbennig, dylech osgoi unrhyw argraff bod eu gofal yn dibynnu ar eu penderfyniad i roi eu caniatâd

Cyhoeddi astudiaethau achos

4 Efallai y bydd yn anodd sicrhau bod astudiaethau achos am gleifion yn cynnwys gwybodaeth ddienw, ac ar yr un pryd, eu bod yn ddigon manwl i sicrhau bod y cyhoeddiad yn ddefnyddiol. Yn aml, ni fydd newid enw claf yn sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw os bydd manylion personol eraill yn cael eu cynnwys, megis oedran, rhyw, lleoliad neu gyfrif manwl o salwch a thriniaeth y claf.

5 Os na fydd modd i chi sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw, dylech geisio caniatâd y claf cyn ei datgelu. Wrth geisio caniatâd y claf, rhaid i chi roi digon o wybodaeth iddynt ynghylch natur a diben y datgeliad, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Dylai hyn gynnwys disgrifiad o'r wybodaeth i'w datgelu a syniad o'r ffordd y bydd yn cael ei defnyddio, er enghraifft, a fydd yn cael ei chyhoeddi mewn cyfnodolyn neu'n cael ei dangos mewn cynhadledd feddygol. Yna, rhaid i chi ddatgelu'r wybodaeth honno at y diben y mae'r claf wedi rhoi eu caniatâd iddo yn unig.

6 Os na fydd modd i chi sicrhau caniatâd y claf am unrhyw reswm, er enghraifft, oherwydd bod y wybodaeth yr ydych yn dymuno'i datgelu mor hen fel bod ymdrechion i olrhain y claf wedi bod neu'n debygol o fod yn aflwyddiannus, bydd angen i chi ystyried a oes modd cyfiawnhau'r cyhoeddi er budd y cyhoedd.

7 Dylech barchu penderfyniad claf i wrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu gwybodaeth adnabyddadwy.

Addysgu a hyfforddi

8 Mae mwyafrif y cleifion yn deall ac yn derbyn bod addysgu a hyfforddi myfyrwyr a hyfforddeion meddygol a myfyrwyr a hyfforddeion gofal iechyd eraill yn dibynnu ar drefniadau i sicrhau bod modd iddynt droi at wybodaeth am gleifion.

9 Os bydd hyfforddeion[3] yn rhan o'r tîm gofal iechyd sy'n darparu neu sy'n cynorthwyo gofal claf, bydd modd iddynt droi at wybodaeth bersonol claf yn yr un modd ag aelodau eraill y tîm, oni bai bod y claf yn gwrthwynebu.

10 Os bydd angen i fyfyrwyr droi at wybodaeth bersonol claf, ond nid ydynt yn darparu neu'n cynorthwyo gofal y claf, dylid defnyddio gwybodaeth ddienw pryd bynnag y bo modd. Efallai na fydd hyn yn ymarferol pan fyddant yn cael cyswllt uniongyrchol gyda'r gwaith o ddarparu gofal, er enghraifft, wrth fynd o gwmpas wardiau, ond fel arfer, bydd yn ymarferol ceisio caniatâd diamwys y claf i'r datgeliad.[4]

11 Efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth bersonol, neu efallai na fydd yn ymarferol sicrhau ei bod yn ddienw, a hefyd, efallai na fydd yn ymarferol ceisio caniatâd diamwys claf i'r datgeliad. Fodd bynnag, os yw'r claf wedi cael gwybodaeth ynghylch y datgeliad a'u hawl i wrthwynebu, ac os nad ydynt wedi gwrthwynebu, cewch ddatgelu gwybodaeth bersonol sy'n angenrheidiol ar gyfer addysg myfyrwyr meddygol a myfyrwyr gofal iechyd eraill.

Myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau

12 Weithiau, gofynnir i feddygon gynnig profiad gwaith i fyfyrwyr mewn ysgolion uwchradd neu golegau addysg bellach, a allai gynnwys caniatáu iddynt fod yn bresennol yn ystod ymgynghoriadau gyda chleifion. Dylech geisio caniatâd diamwys y claf i weithgarwch lle y bydd myfyriwr yn arsylwi eu gofal. Dylech sicrhau bod y myfyriwr yn deall pwysigrwydd parchu cyfrinachedd a bod eu hysgol neu eu coleg yn ystyried eu cyfrifoldebau dros ymddygiad eu myfyrwyr o ddifrif. Yn ogystal, dylech argyhoeddi'ch hun nad yw presenoldeb y myfyriwr yn cael effaith niweidiol ar ofal y claf, er enghraifft, trwy gyfyngu ar drafodaeth agored.

Cleifion nad ydynt yn meddu ar alluedd

13 Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth bersonol at ddibenion addysg a hyfforddiant ynghylch cleifion nad ydynt yn meddu ar alluedd os yw'n ymarferol i chi ddefnyddio gwybodaeth am gleifion eraill yn lle hynny.

14 Os ydych yn dymuno datgelu gwybodaeth bersonol am glaf nad yw'n meddu ar alluedd, ond y maent yn debygol o adennill eu galluedd, dylech aros a cheisio'u caniatâd yn nes ymlaen os yw hynny'n ymarferol.

15 Gallwch ddatgelu gwybodaeth bersonol am glaf nad ydynt yn meddu ar alluedd i roi eu caniatâd os bydd y datgeliad o fudd neu er budd pennaf y claf, neu os bydd modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd.[5]

16 Os gofynnir i chi ddatgelu gwybodaeth am glaf nad yw'n meddu ar alluedd, neu os ydych yn dymuno datgelu gwybodaeth am glaf o'r fath, dylech geisio safbwyntiau unrhyw un y mae'r claf yn gofyn i chi ymgynghori gyda nhw, neu y mae ganddynt awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar eu rhan,[6] neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos gyda'r claf. Efallai y byddant yn gallu rhoi syniad i chi ynghylch dewisiadau, safbwyntiau a chredoau'r claf a fynegwyd yn flaenorol.

17 Yn absenoldeb unrhyw syniad ynghylch dewisiadau claf nad ydynt yn meddu ar alluedd:

(a) ni ddylech gyhoeddi gwybodaeth y bydd modd eu hadnabod o'i gweld, ond

(b) cewch ddatgelu gwybodaeth bersonol i fyfyrwyr a hyfforddeion meddygol a myfyrwyr a hyfforddeion gofal iechyd eraill i'r graddau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu haddysg a'u hyfforddiant.

Ôl-nodion

1 Dylech ystyried a yw'r gwaith y mae angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu er mwyn ceisio caniatâd cleifion, yn rhesymol ar lefel ymarferol yn yr holl sefyllfaoedd. Dim ond os bydd angen gwneud ymdrech afresymol y dylech symud ymlaen i ystyried a oes modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth adnabyddadwy er budd y cyhoedd.

2 Os na fydd yn ymarferol sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu geisio neu sicrhau caniatâd cleifion heb wneud ymdrech afresymol, ac mae'r tebygolrwydd y bydd cleifion yn wynebu niwed neu ofid yn fach iawn, gallai datgelu at ddiben eilaidd pwysig fod yn gymesur. Dylech barchu gwrthwynebiadau cleifion i ddatgeliad.

3 Yn y cyd-destun hwn, mae 'hyfforddeion' yn cyfeirio at ymarferwyr meddygol mewn graddau hyfforddi, ac mae 'myfyrwyr' yn cyfeirio at israddedigion sy'n astudio am radd feddygol.

4 Gweler ein harweiniad *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*, sy'n nodi bod yn rhaid i chi roi'r wybodaeth i gleifion y byddant yn ei dymuno neu y bydd angen iddynt ei chael ynghylch y graddau y bydd myfyrwyr yn ymwneud â'u gofal efallai, a'u hawl i wrthod cymryd rhan mewn gweithgarwch addysgu.

5 Gweler *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000* a D*eddf Galluedd Meddyliol 2005* a'u codau ymarfer priodol. Ni cheir deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â galluedd meddyliol ar gyfer Gogledd Iwerddon, lle y mae'r ddyletswydd yn ôl cyfraith gwlad i weithredu er budd pennaf cleifion analluog yn parhau.

6 Mae gan atwrneiod lles, gwarcheidwaid a benodir gan lys a dirprwyon a benodir gan lys awdurdod cyfreithiol i wneud rhai penderfyniadau ar ran claf. Yng nghyd-destun datgeliadau er budd y cyhoedd, byddwch yn ceisio'u safbwyntiau ynghylch dewisiadau'r claf, yn hytrach na'u caniatâd i ddatgelu.

Ymateb i feirniadaeth yn y wasg

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd*, rydym yn cynghori:

> **6** Mae cyfrinachedd yn rhan ganolog o'r ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion. Heb sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, efallai y bydd cleifion yn amharod i geisio sylw meddygol neu i roi'r wybodaeth angenrheidiol i feddygon er mwyn iddynt allu darparu gofal da ar eu cyfer. Ond mae rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer y claf unigol a chymuned ehangach y cleifion.

2 Weithiau, bydd meddygon yn cael eu beirniadu yn y wasg gan eu cleifion[1] neu gan rywun y mae gan eu cleifion berthynas bersonol agos gyda nhw. Gall y feirniadaeth gynnwys manylion anghywir neu gamarweiniol ynghylch diagnosis, triniaeth neu ymddygiad y meddyg.

3 Er bod hyn yn gallu peri rhwystredigaeth neu ofid, nid yw'n eich rhyddhau chi o'ch dyletswydd i barchu cyfrinachedd eich claf. Gall datgelu gwybodaeth am gleifion heb sicrhau eu caniatâd, danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn, yn ogystal ag ymddiriedaeth eich claf ynoch chi. Ni ddylech drefnu bod gwybodaeth yr ydych wedi'i chael yn gyfrinachol am glaf, yn cael ei chyhoeddi i'r cyhoedd, heb sicrhau caniatâd diamwys y claf.

4 Yn aml, ni fydd unrhyw ddiben ymarferol i anghydfodau sy'n codi rhwng cleifion a meddygon ac a gynhelir yn y cyfryngau; gallant ymestyn neu ddwysau gwrthdaro, ac fe allent danseilio hyder y cyhoedd yn y proffesiwn, hyd yn oed os nad ydynt yn ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd. Fel arfer, dylech gyfyngu ar eich ymateb cyhoeddus i adroddiadau yn y wasg, i esboniad ynghylch eich dyletswydd cyfrinachedd cyfreithiol a phroffesiynol.

5 Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gallai adroddiadau yn y wasg beri i gleifion deimlo'n bryderus am eich harferion, neu arferion gwasanaeth iechyd y mae gennych gyswllt gydag ef. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yn briodol rhoi gwybodaeth gyffredinol am eich harferion arferol. Rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn datgelu gwybodaeth bersonol am glaf neu'n rhoi adroddiad am eu gofal, heb sicrhau eu caniatâd. Os byddwch yn gwadu honiadau sy'n ymddangos yn y wasg, rhaid i chi fod yn ofalus na fyddwch yn datgelu, yn uniongyrchol neu trwy hepgor neu ensynio, unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol am y claf, ac eithrio'r hyn sy'n ofynnol mewn datganiad gwadu syml.

6 Dylech geisio cyngor eich corff proffesiynol neu'ch corff amddiffyn, neu gyngor cyfreithiwr, ynghylch sut i ymateb i feirniadaeth yn y wasg ac, os yw hynny'n briodol, unrhyw iawndal cyfreithiol sydd ar gael i chi.

Ôl-nodion

1 Yn yr arweiniad hwn, defnyddir y gair 'claf' er mwyn cyfeirio at gleifion presennol a chyn gleifion.

Llundain
Regent's Place, 350 Euston Road, London NW1 3JN

Manceinion
St James's Buildings, 79 Oxford Street, Manchester M1 6FQ

Yr Alban
5th Floor, The Tun, 4 Jackson's Entry, Holyrood Road, Edinburgh EH8 8PJ

Cymru
Tŷ Regus, Falcon Drive, Bae Caerdydd CF10 4RU

Gogledd Iwerddon
9th Floor, Bedford House, 16-22 Bedford Street, Belfast BT2 7FD

Ffôn: 0161 923 6602
E-bost: gmc@gmc-uk.org
Gwefan: www.gmc-uk.org
Rhif ffôn y tu allan i'r DU: +44(0)161 923 6602

Mae CMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750)

© 2009 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, storio mewn system adalw, neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf, neu mewn unrhyw ffordd, electronig, mecanyddol, llun-gopïo, recordio neu fel arall heb sicrhau caniatâd perchennog yr hawlfraint ymlaen llaw.

Cyhoeddwyd yn gyntaf: 2009

ISBN: 978-0-901458-39-1

Mae modd cael cofnod catalog o'r llyfr hwn gan y Llyfrgell Brydeinig

Cod: GMC/CAA/0909